Senedd Cymru
**Y Pwyllgor Safonau Ymddygiad**

# Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth ag Aelodau sy'n arsylwi'r trafodion

Hydref 2024

## Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth

### Diben sesiynau tystiolaeth ar ddichell

**1.** Mae'r Pwyllgor wedi nodi ymrwymiad Cwnsler Cyffredinol Llywodraeth Cymru ar y pryd i gyflwyno deddfwriaeth i wneud dichell yn drosedd gyda phroses farnwrol annibynnol. Mae'r Pwyllgor yn cydnabod bod y mater o ddichell yn dod o fewn cwmpas ei ymchwiliad i wella atebolrwydd aelodau unigol. Mae'r Pwyllgor felly wedi cytuno i gasglu tystiolaeth ar rinweddau diarddel Aelodau ac ymgeiswyr a geir yn euog o ddichell bwriadol, gan gynnwys drwy broses farnwrol annibynnol.

### Cyfarfodydd

**2.** Gwahoddir Aelodau sy'n arsylwi'r trafodion i'r Pwyllgor yn ôl disgresiwn y Cadeirydd.

**3.** Bydd Rheolau Sefydlog 17.24A – 17.30 sy'n ymwneud â: datgan buddiannau perthnasol; ymddygiad mewn pwyllgorau; sub judice; a chysylltiadau â'r farnwriaeth[1] yn cael eu cymhwyso'n gyfartal i Aelodau'r Pwyllgor ac Aelodau sy'n arsylwi'r trafodion.

[1] Rheolau Sefydlog Senedd Cymru

**4.** Bydd y Pwyllgor, mewn ymgynghoriad ag Aelodau sy'n arsylwi'r trafodion, yn cytuno fesul cyfarfod a ddylid cynnal trafodion mewn fformat hybrid neu rithwir.

**5.** Lle bo modd, caiff cyfarfodydd eu trefnu i grwpio sesiynau sy'n ymwneud ag adalw ar wahân i'r rhai sy'n ymwneud â dichell. Lle nad yw hyn yn bosibl, er mwyn osgoi gofyn i dystion ddod i gyfarfodydd y Pwyllgor ddwywaith, mae croeso i'r Aelodau sy'n arsylwi aros drwy gydol y trafodion. Fodd bynnag, bydd y Cadeirydd yn caniatáu i Aelodau sy'n arsylwi'r trafodion holi'r tystion hynny ar faterion sy'n berthnasol i'r ymchwiliad i ddichell bwriadol yn unig.

**6.** Gwahoddir yr Aelodau sy'n arsylwi'r trafodion i ymuno â thrafodaeth breifat y Pwyllgor o'r dystiolaeth yn ymwneud â dichell, ac i rannu barn.

**7.** Gall Aelodau'r Pwyllgor gael mynediad i adnoddau'r Pwyllgor yn y ffordd arferol, ond os bydd gan Aelodau sy'n arsylwi'r trafodion unrhyw geisiadau penodol, dylid eu gwneud gyda chytundeb y Cadeirydd.

## Tystion

**8.** Bydd y Pwyllgor yn cytuno ar banel o dystion y mae'n dymuno eu gwahodd i roi tystiolaeth, a hynny er mwyn cael cydbwysedd barn o bob sector.

**9.** Ymgynghorir â'r Aelodau sy'n arsylwi'r trafodion am y bobl/sefydliadau y maent yn dymuno eu gwahodd i roi tystiolaeth. Mater i'r Pwyllgor fydd penderfynu pwy i'w gwahodd.

## Rhannu dogfennaeth

**10.** Caiff holl bapurau cyhoeddus a phreifat y Pwyllgor sy'n ymwneud â'r gwaith ar ddichell eu rhannu gyda'r Aelodau sy'n arsylwi'r trafodion. Yn achos papurau preifat, mae'r rheolau arferol ynghylch dogfennaeth gyfyngedig yn gymwys, fel y nodir yn rheolau 13 a 15 o'r 'Cod Ymddygiad ar Safonau Ymddygiad Aelodau o'r Senedd'.[2]

**11.** Bydd yr holl ddogfennaeth arall sy'n ymwneud â gwaith y Pwyllgor ar Atebolrwydd Aelodau Unigol yn cael eu cyfyngu i Aelodau'r Pwyllgor.

[2] Cod Ymddygiad ar Safonau Ymddygiad Aelodau o'r Senedd

## Adroddiadau ac allbynnau

**12.** Bydd adroddiad penodol yn cael ei gynhyrchu mewn perthynas â dichell. Bydd hwn ar wahân i adroddiad y Pwyllgor ar adalw.

**13.** Bydd unrhyw adroddiad a gynhyrchir gan y Pwyllgor yn seiliedig ar dystiolaeth y mae'n ei chasglu a thrwy gyflwyniadau ysgrifenedig. Bydd y Pwyllgor yn cymryd ac yn cyhoeddi unrhyw gyflwyniadau ysgrifenedig perthnasol a ddaw i law tan y sesiwn dystiolaeth olaf sydd wedi'i threfnu.

**14.** Bydd y Pwyllgor yn cynnal sesiwn materion allweddol, a chaiff Aelodau sy'n arsylwi'r trafodion eu gwahodd i gymryd rhan yn y sesiwn. Caiff yr adroddiad drafft ei rannu, a bydd crynodeb y cytunwyd arno o farn yr Aelodau sy'n arsylwi'r trafodion yn rhan o'r adroddiad. Bydd yr adroddiad yn cael ei dderbyn gan ddilyn prosesau arferol y Pwyllgor.